

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

2/4/2015

Presennol: Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Faer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Dorothi Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Islwyn Pritchard Jones, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Ymddiheuriadau: Sharon Evans

1. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Maer ac fe dynnwyd lluniau gan Mr Evan Dobson.
2. Cyflwynodd y Maer lythyr o werthfawrogiad ar ran y Cyngor a thrigolion Y Bala i Mr Arthur Arrowsmith wrth nodi ei ymddeoliad ar ôl 43 mlynedd o reoli llif Llyn Tegid. Cyflwynwyd plac y Cyngor Tref i Mr Arrowsmith i nodi'r achlysur.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Derbyniwyd datganiad buddiant yn eitem 9 gan Edith Roberts, sef cais cynllunio Cae Chwarae Heol y Castell.
5. Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Mawrth 5ed , 2015.
6. Nid oedd materion yn codi o gofnodion Mawrth 5ed nad oedd eisoes ar yr Agenda.
- 7. Materion y Clerc:**
 - i. Fframio lluniau – mae'r gwaith mewn llaw.
 - ii. Cytunodd y Cyngor i symud ymlaen i bwrcasu'r hysbysfwrdd dan sylw yn ôl y dyfynbris a dderbyniwyd.
 - iii. Mae'r Warden Traffig wedi ymateb yn gadarnhaol i gais y Cyngor am bresenoldeb yn y dref.
 - iv. Cytunwyd i bwrcasu tua dwsin o blatiau (yn ddibynnol ar y prisiau) gydag arfbais Cyngor Tref Y Bala o'r Capel Clay.
 - v. Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo'r cais i ddiogelu'r Domen.
- 8. Materion y Cynghorydd Sir** Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod ymateb positif iawn wedi bod i'r cynlluniau i ad-drefnu addysg yn y dref. Mae'r

broses o gyflwyno certiau ail-gylchu newydd wedi ei gychwyn ym Meirionnydd ac wedi derbyn ymateb ardderchog.

9. Materion Cynllunio

- i. Cymeradwywyd y cais am giatiau ychwanegol i reoli da byw ar lwybrau cyhoeddus rhifau 135, 136, 137 a 139 (Rhiwlas).
- ii. Cymeradwywyd Cais NP5/53/491B, sef addasiadau i'r cynllun a gytunwyd eisoes i uwchraddio Cae Chwarae Heol y Castell.

10. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Derbyniwyd pris Cwmni Zurich am yswiriant y Cyngor o 31/5/15
- iii. Cytunwyd i dalu cyflog y Clerc am fis Mawrth.
- iv. Derbyniwyd Rheoliadau Cyllidol newydd.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am Archwiliad o'r cyfrifon gan John Roberts ar 29/5/15.
- vi. Cytunwyd i gyfrannu'n ariannol tuag at gostau archebu tocynnau disgyblion Ysgol Bro Tegid i Eisteddfod yr Urdd a chyfarwyddwyd y Clerc i wneud y trefniadau.

11. Gohebiaeth

i. Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd gwybodaeth am gyfnod ymgynghorol ar ddyfodol ysgolion dalgylch Y Berwyn (dyddiad cau: 28Ebrill www.gwynedd.gov.uk) Cytunwyd i'r Clerc i ysgrifennu gan ddatgan cymeradwyaeth y Cyngor i'r cynlluniau.

Derbyniwyd Rhaglen Neuadd Dwyfor.

ii. Un Llais Cymru

Nodwyd y cyfle i lunio cynigion ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol.

Cytunodd Dorothi Evans i gynrychioli'r Cyngor mewn digwyddiad ymgynghori ar y Papur Gwyn: *Diwygio Llywodraeth Leol 16/4/15*, 2-4pm ym Metws y Coed.

iii. Eraill

Derbyniwyd ffurflen gais i'r Maer ymweld ag Eisteddfod Llangollen.

Rhodddwyd ystyriaeth i gais gan y Fieldfinders Trust am wybodaeth am gaeau chwarae a brynwyd trwy grant gan y Carnegie UK Trust rhwng 1927 a 1935. Roedd gwybodaeth fod y Cyngor wedi pwrkasu Maes Tegid, ond nid oedd gwybodaeth am berchnogaeth a hanes prynu meysydd eraill. Os oes gwybodaeth berthnasol gan swyddogion meysydd chwarae'r Bala, byddai Cyngor Tref Y Bala yn falch o'i dderbyn.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch am gyfraniad oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Opra Cymru, Theatr Bara Caws, a thystysgrif oddi wrth Ambiwlans Awyr.

12. Asedau'r Cyngor – derbyniwyd adroddiad Eluned Jones ar eu cyflwr. Cytunodd John C Williams ac Islwyn Pritchard-Jones i drefnu gwaith cynnal ar

- i. Mainc Blaenddol
- ii. Mainc Ffordd y Gerddi
- iii. Y polyn signal
- iv. Polyn a fflag wrth y Ganolfan Hamdden
- v. Sedd ar y domen

Cytunodd Alun Price i wneud ymholiadau pellach parthed adnewyddu'r bwrdd gwybodaeth ar y Domen.

Cytunodd Dilys Evans i archwilio'r Asedau ym mis Ebrill.

Mynegodd y Cyngor siom bod tractor wedi difetha'r cennin pedr wrth droi mewn i Stryd y Fron trwy yrru yn ôl ac ymlaen nifer o weithiau drostynt. Mae'r cennin pedr yno i harddu'r dref ar gyfer trigolion a thwristiaid, ac mae'n drueni mawr fod yr ardal wedi ei hanharddu mor ddifeddwl.

13. Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr; derbyniwyd cofnodion diweddaraf o'r Bartneriaeth a nodiadau o gyfarfod Dyfed Edwards am y Papur Gwyn. Cyflwynwyd Cyfrifon Partneriaeth Penllyn am 2014-15 a chytunwyd i'w cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol gyda chyfrifon Cyngor Tref Y Bala.

14. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

- i. Cefnogwyd cais am gefnogaeth i gais am grant gan y Gymdeithas Chwaraeon i drwsio to'r pafiliwn.
- ii. Mae goryrru ar Heol Ffrydan, Heol Pensarn a heibio'r Grîn yn parhau yn bryder i'r Cynghorwyr. Mae'r ardaloedd hyn yn derbyn sylw cyson gan "Gan Bwyll" ac mae Awdurdod Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y broses o gasglu data cyflymder wrth Neuadd y Cyfnod. Mynegwyd pryder fod gyrru ar gyflymder ar hyd y Stryd Fawr wedi cynyddu'n ddiweddar.

- iii. Cytunwyd fod wyneb y ffordd yn wael ar y Stryd Fawr, a chyfarwyddwyd y Clerc i holi pryd y bydd Awdurdod Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn ymgymryd â'r gwaith, gan eu hatgoffa o'r angen i osgoi prysurdeb yr haf.
- iv. Mynegwyd fod y stop bws wrth Dafarn Yr Hen Ben Tarw yn anghyfleus i drigolion ardaloedd Yr Hafan, Blaenddol a Chysgod y Coleg; dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ei fod yn ceisio cael safle ar gyfer gollwng teithwyr yn nes at Neuadd y Cyfnod.
- v. Llwybr y Sgotwyr – adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan nad yw'r addewid a roddwyd wedi ei chyflawni hyd yn hyn. Bydd y mater hwn ar Agenda'r Cyngor Tref y mis nesaf er mwyn cymryd camau pellach os bydd angen.
- vi. Adroddodd Eluned Jones am ddigwyddiadau codi arian tuag at brynu offer digidol i Neuadd Buddug.
- vii. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i weithredu ar fater goleuadau stryd diffygiol ym Mro Eryl.
- viii. Mynegwyd pryder am gyflwr llwybr Cae Bach, gyda phridd yn dod lawr o'r cloddiau. Addawodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i edrych mewn i'r mater.
- ix. Mynegwyd pryder am y posibilrwydd o ddamwain wrth i wartheg godro groesi'r A 494, a chytunwyd i ofyn am arwyddion i rybuddio am hyn ac am fwd ar draws y ffordd. Nodwyd fod da yn croesi yn creu oedi i drafnidiaeth.

Tynnir sylw trigolion at rif Galw Gwynedd, sef **01766 771 000**. Hwn ydyw'r rhif i unigolion i'w ffonio os oes mater angen gweithredu arno sy'n berthnasol i Gyngor Gwynedd.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: **14/5/15**

Amser gorffen: 8.45pm